# ATGOFION AM Y 'PYLGAIN'

gan GLANFFRWD (Y Parch William Thomas), 1843 - 1890
o ardal Llanwynno, rhwng cwm Rhondda a chwm Cynon

*Cyfnod yr atgofion yw'r 1840au*

Hela gwiwer oedd difyrrwch i lawer yn y plwyf gynt, yn enwedig ar ddydd Nadolig...Yn y bore am bump o'r gloch yr oeddem oll yn y Pylgain yn yr hen gapel, oblegid bore Nadolig ydoedd. Yr oeddwn yn adrodd pennod i ddechrau'r cyfarfod.

Yr oedd yr hen gapel wedi ei addurno â chanhwyllau o bob math a lliw, a'r rhai hynny wedi eu gwiso gan y merched mewn modd prydferth iawn. Yr oedd rhes o ganhwyllau wedi eu gosod o gwmpas y sêt fawr, a rhes o gwmpas y seti eraill, oll yn addurnol iawn; a Daniel Rhydygwreiddyn, Shadrach o'r Lechwen a William Llwynperdid wedi gwneud math o *chandelier* o glai ffynnon y Fanhalog, a'i hongian â chadwyn hir wrth dop y capel neu y nenfwd yng nghanol y lle. Yr oedd yn brydferth ac yn hynod iawn....Yr oedd yr hen gapel yn orwych iawn, ac mor olau ag y gallasai canhwyllau ei wneud.

Mae yn awr yn bryd dechrau'r cyfarfod. Rhoddir emyn allan gan Joseph Davies - 'Wele Cawsom y Meseia' etc. yna adroddais innau fy mhennod a ddysgodd fy mam i mi. Yna rhoddwyd emyn allan gan George Davies, -

*Tair, tair,*
*Arglwyddes feichiog dda eu gair,*
*Arfaeth, addewid, ac hefyd Mair, etc*

Canu bywiog iawn. Ond cododd Richard Williams ar ei draed i dorri pen un o'r canhwyllau a oedd yn llosgi dipyn yn dywyll. Pawb yn edrych ar y gannwyll, ac yn ofni i rywbeth ddigwydd i'r holl *frills* ardderchog o'i chwmpas, a rhywfodd mae Richard yn lled drwsgl gyda'r gwaith o'i thacluso, ac ar unwaith mae'r papur a'r addurnwaith yn ffaglu, ac yn ffurfio math o goelcerth yn ymyl yr hen gwpwrdd, ac mewn ychydig eiliadau mae cannwyll addurniedig Mari Tynewydd wedi llosgi allan, a lludw'r papur yn

hofran uwchben drwy y capel, a Mari Tynewydd ac Ann merch Richard yn gwneud golwg chwerw, ac yn edrych yn ddicllon ar yr hen ŵr am ddifetha'r gannwyll cyn pryd.

Wedi i George Davies weddïo, dyma Siencyn Buarthcapel yn rhoi emyn allan i'w ganu, yn ei ddull gwledig ei hun. Yr emyn oedd hwn:

*Mewn bywyd mae gwasanaethu Duw,*
*Dydd gras ac Iachawdwriaeth yw,*
*Tra dalio'r lamp i losgi ma's*
*Yr asyn gwaethaf all gael gras.*

Pawb yn meddwl, pe buasai yn 'llosgi ma's' cyn gynted â channwyll Mari Tynewydd, mai siawns wael fuasai i lawer un.